# Dyfed-Powys



# Adroddiad Blynyddol 2015 - 2016

MAPPA

PROTECTION THROUGH PARTNERSHIP

# Cyflwyniad

## Cyflwyniad gan yr Awdurdod Cyfrifol

Mae’n dda gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) Dyfed-Powys ar gyfer 2015-16.

Hyderwn y bydd yr adroddiad hwn yn hysbysu ac yn sicrhau’r cyhoedd ynghylch gwaith ardderchog ac ymrwymiad pob asiantaeth sy’n gysylltiedig â’r broses MAPPA, o ran diogelu’r cyhoedd rhag y troseddwyr hynny sy’n peri’r perygl mwyaf yn ein cymunedau lleol.

Rydyn ni’n deall na all yr un asiantaeth weithio ar ben ei hun mewn perthynas â diogelu dioddefwyr a’r cyhoedd ehangach. Gan hynny, er budd diogelu’r cyhoedd, rydyn ni’n deall y rheolir risg yn effeithiol drwy ymgysylltu’n weithredol, gyda phob asiantaeth yn cydweithio gyda nod a rennir, sef lleihau’r perygl o niwed yn y cymunedau rydyn ni’n byw ynddynt.

Ar ôl cyflwyno MAPPA drwy Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae’r fframwaith ar gyfer adnabod troseddwyr, sy’n arwain at reoli’r rhai sy’n peri’r perygl mwyaf o niwed i’r cyhoedd yn amlasiantaethol, wedi parhau i esblygu, gyda’r nod o hyrwyddo cymunedau mwy diogel.

Mae’r manylion o fewn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymroddiad pob asiantaeth sy’n rhan o MAPPA ac sydd wedi ymrwymo i ddiogelu’r cyhoedd, ac ar yr un pryd, hyrwyddo cymunedau mwy diogel yn ardal Dyfed-Powys.

Cyflwynwn ein hadroddiad i chi.



**Simon Boddis**
**Cyfarwyddwr NOMS Cymru**



**Simon Prince**
**Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

(a) MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) yw'r trefniadau i reoli'r risg a achosir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (troseddwyr MAPPA) dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(b) Maent yn dod â'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i ffurfio Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

(c) Mae gan nifer o asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

(ch) Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Ymgynghorydd Lleyg i fod yn aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol ar gyfer pob ardal MAPPA ochr yn ochr ag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithredu.

(d) Aelodau o'r cyhoedd yw Ymgynghorwyr Lleyg heb unrhyw gysylltiad â'r gwaith o reoli troseddwyr MAPPA. Maent yn sylwebyddion annibynnol ond gwybodus; maent yn gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n agos iawn at y gwaith yn ystyried eu codi. Maent hefyd yn dod â'u dealltwriaeth a'u canfyddiadau nhw o'r gymuned leol i'r Bwrdd Rheoli Strategol (ac mae'n rhaid eu bod yn byw yn y gymuned honno neu fod ganddynt gysylltiad cryf â hi).

## Sut mae'r MAPPA'n gweithio

- Penderfynir pa droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, ac mae'r asiantaethau'n rhannu gwybodaeth amdanynt er mwyn bwydo asesiadau a chynlluniau risg y rhai sydd yn eu rheoli neu eu goruchwylio.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, dyna pa mor bell y mae MAPPA'n ymestyn, ond mewn rhai achosion, penderfynir bod angen rheolaeth amlasiantaethol weithredol. Mewn achosion felly, cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol.

- Y mae tri chategori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA: **Categori 1** - troseddwyr rhyw cofrestredig; **Categori 2** - (yn bennaf) troseddwyr treisgar wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; a **Chategori 3** - troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan gategori 1 na 2, ond sydd ar y pryd yn achosi risg o niwed difrifol.

- Y mae tair lefel o reolaeth er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau yn yr achosion lle y mae mwyaf eu hangen; fel arfer y rhai lle y mae mwy o berygl o niwed difrifol. Golyga **Lefel 1** reolaeth asiantaethol arferol (h.y. dim adnoddau na chyfarfodydd MAPPA); golyga **Lefel 2** bod angen cyfraniad gweithredol sawl asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr, ond nid yw'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymroddiad uwch swyddogion. Pan fo angen goruchwyliaeth gan uwch swyddogion, byddai'r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR, sef cronfa TG genedlaethol ar gyfer rheoli pobl sy'n peri risg difrifol o niweidio'r cyhoedd. Bu'r heddlu'n defnyddio ViSOR ers 2005 ond daeth y system yn weithredol yn llawn ym Mehefin 2008 gan alluogi staff allweddol o'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai i weithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd ac amseroldeb asesiadau risg ac ymyriadau er mwyn atal aildroseddu. Trwy ddefnyddio ViSOR ar y cyd, cynyddir y gallu i rannu gwybodaeth ymysg sefydliadau a galluogi'r wybodaeth allweddol i gael ei throsglwyddo'n ddiogel pan mae'r troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan wella mesurau diogelu'r cyhoedd. Cyhoeddir pob Adroddiad Blynyddol ar-lein ar: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Nifer y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 444 | 168 | - | 612 |
| Lefel 2 | 13 | 5 | 7 | 25 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 457 | 173 | 8 | 638 |

| Nifer y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 44 | 35 | 23 | 102 |
| Lefel 3 | 3 | 1 | 2 | 6 |
| Cyfanswm | 47 | 36 | 25 | 108 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig wedi derbyn rhybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 27 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig sydd â'u hysbysiad gydol oes wedi'i ddiddymu ar gais** | 0 |

| Gorchmynion cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor a Gorchmynion Hysbysu a orfodir gan y llysoedd** | |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol | 37 |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu ar ôl torri Gorchymyn Perygl Rhywiol** | 0 |

| Troseddwyr Lefelau 2 a 3 a ddychwelwyd i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau eu trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 5 | 11 | 2 | 18 |
| Lefel 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 6 | 11 | 2 | 19 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** | | | | |
| Lefel 2 | 0 | - | - | 0 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 0 | - | - | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o'r boblogaeth** | 99 |

Cafodd y ffigwr hwn ei gyfrifo ar sail Poblogaeth Amcangyfrifol Canol Blwyddyn 2015: Fesul oedran a rhyw ar gyfer Ardaloedd Plismona yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif poblogaeth, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 23 Mehefin 2016, namyn plant dan ddeg oed.

# Esbonio’r tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn dangos y sefyllfa, yn ôl categori, 31 Mawrth 2016 (h.y. ciplun ydynt). Mae gweddill y data’n ymwneud â’r cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

**(a) Troseddwyr cymwys MAPPA** - mae'r gyfraith yn diffinio nifer o droseddwyr fel rhai sy'n gymwys am reolaeth trwy MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw neu droseddau treisgar penodol neu eu bod yn achosi risg o niwed difrifol, er bod y mwyafrif (97% eleni) mewn gwirionedd yn cael eu rheoli dan drefniadau arferol asiantaeth (lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPP llawn.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig** – y rhai hynny sy'n gorfod rhoi eu henwau, eu cyfeiriadau a’u manylion personol eraill i’r heddlu, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newid wedyn (“gofyniad hysbysu” y gelwir hyn). Mae peidio â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu’n drosedd gyda chosb uchaf o garchar am bum mlynedd.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr wedi'u dedfrydu i garchar neu gystodaeth am 12 mis neu'n fwy, neu wedi'u cadw dan orchymyn ysbyty. Y mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru, a throseddwyr wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

**(ch) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan ddau gategori arall MAPPA, ond sy'n achosi risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli trwy gyfarfodydd MAPP.

**(d) Torri amodau trwydded** – bydd troseddwyr a ryddheir i'r gymuned yn dilyn cyfnod o 12 mis neu'n fwy yn y carchar yn cael eu rheoli dan drwydded gydag amodau (dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau yn erbyn y troseddwyr, ac mae'n bosib y cânt eu galw'n ôl i'r carchar.

**(dd) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol – (wedi disodli Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol) gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol o ran teithio tramor.**

Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol interim yw diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr sydd wedi'u heuogfarnu o drosedd rywiol neu dreisgar sy'n cyflwyno perygl o niwed rhywiol i'r cyhoedd drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'n ofynnol i'r troseddwr hysbysu'r heddlu am eu manylion (fel y nodir yn Adran 2 o Ddeddf 2003) hyd ddiwedd cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys bod yn fodlon bod gorchymyn yn ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd (neu aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol) tramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais rhydd gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (ATC), rhaid i'r prif swyddog/ATC fedru dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath modd ers ei euogfarn nes y bydd gorchymyn yn angenrheidiol.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw 5 mlynedd. Y terfyn oed isaf yw 10, sef yr oedran cyfrifoldeb troseddol, ond pan mae diffynnydd o dan 18 oed, dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(e) Gorchymyn Hysbysu** – mae hwn yn gorfodi troseddwyr rhyw sydd wedi'u cael yn euog mewn gwlad dramor i gofrestru gyda'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a achosir ganddynt. Gall yr heddlu gyflwyno cais i'r llys am orchymyn ar gyfer troseddwyr sydd yn y DU, neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Perygl Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol o ran teithio tramor)**
Disodlodd y Gorchymyn Perygl Rhywiol (GPRh) y Gorchymyn Perygl Niwed Rhywiol (GPNRh) a gellir ei wneud mewn perthynas â pherson sydd heb ei euogfarnu ar gyfer trosedd rywiol neu dreisgar, ond sy'n cyflwyno perygl o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y GPRh yn y llys ynadon ar gais, gan yr heddlu neu'r ATC, pan mae unigolyn wedi **cyflawni gweithred o natur rywiol** ac mae'r llys yn **fodlon bod y person yn cyflwyno perygl o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu blant neu unigolion bregus tramor.**

Gall GPRh wahardd y person rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo - **mae hyn yn cynnwys atal teithio tramor**. Rhaid bod unrhyw waharddiad yn ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol neu, mewn perthynas â theithio tramor, diogelu plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Disgwylir i unrhyw unigolyn sy'n destun GPRh hysbysu'r heddlu am ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, a hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon fewn tri diwrnod.

Gall GPRh bara am leiafswm o ddwy flynedd, ac nid oes hyd pennaf, gan eithrio unrhyw gyfyngiadau o ran teithio tramor sydd, os yn berthnasol, yn para am uchafswm o 5 mlynedd (ond gellir adnewyddu hyn).

Mae'r safon brofi droseddol dal yn berthnasol, mae'r person dan sylw dal yn medru apelio yn erbyn y gorchymyn, ac mae'r heddlu neu'r person dan sylw yn medru gwneud cais am i'r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau.

Ar 21 Ebrill 2010, yn achos *R (ar gais F ac Angus Aubrey Thompson) yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref [2010] UKSC 17*, cadarnhaodd y Goruchaf Lys benderfyniad cynharach y Llys Apêl gan wneud datganiad o anghytundeb o dan a. 4 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mewn perthynas â gofynion hysbysu am gyfnod amhendant o dan adran 82 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
Mae hyn wedi'i unioni yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Troseddau Rhywiol (Adfer) 2012 sydd wedi cyflwyno'r cyfle i droseddwyr sy'n destun hysbysiad amhendant i geisio adolygiad; deddfwyd hyn ar 30 Gorffennaf 2012.

Ni fydd unigolion yn dod oddi ar y rhestr yn awtomatig. Disgwylir i droseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu yn ceisio adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant. Bydd hyn ond yn digwydd unwaith y byddant wedi cwblhau'r cyfnod amser lleiaf sy'n ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu (15 mlynedd o adeg yr hysbysiad cyntaf ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa ar gyfer y drosedd indecs i oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid).

Bydd y rhai sydd dal yn cyflwyno perygl sylweddol yn parhau ar y gofrestr am oes, os oes angen. Os yw troseddwr yn destun Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol, rhaid i'r gorchymyn gael ei ryddhau o dan adran 108 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 cyn cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant.

Am ragor o wybodaeth, gweler adran y Swyddfa Gartref o wefan gov.uk:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

Mae torri GPRh yn dramgwydd troseddol, sydd â chosb uchaf o 5 mlynedd o garchar. Pan mae unigolyn yn torri ei GPRh, byddant yn ddarostyngedig i ofynion llawn yr hysbysiad.

Bellach, mae unigolion sy'n destun GPRh yn cael eu cofnodi ar VISOR, fel Person Peryglus Posibl (PPP).

### (i) Gofynion hysbysu gydol oes a ddiddymir ar gais

**Newid yn y ddeddfwriaeth o ran troseddwyr rhywiol**

Mae her gyfreithiol yn 2016 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bod mecanwaith bellach mewn grym a fydd yn galluogi **troseddwyr rhyw cymwys i wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu.**

Bydd unigolion sy'n destun hysbysiad amhendant ond yn gymwys i geisio adolygiad pan fyddant wedi bod yn destun gofyniad hysbysu amhendant am gyfnod o 15 mlynedd o leiaf ar gyfer oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid. Mae hyn yn berthnasol o 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen Leol

National Offender Management Service

## Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)

Croeso i Adroddiad Blynyddol MAPPA ar gyfer 2015/16. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn Nyfed-Powys.

Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel yw prif flaenoriaeth NOMS yng Nghymru, ac mae'r gwaith rydyn ni wedi ymgymryd ag ef drwy MAPPA yn hollbwysig ar gyfer cyflawni hyn. Mae'n amhosibl dileu risg yn llwyr, fodd bynnag, yr hyn a ddisgwylir yw bod pob cam rhesymol yn cael eu cymryd er mwyn lleihau'r perygl o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys. Ni all yr un asiantaeth unigol wneud hyn ar ben ei hun, ac mae'n hollbwysig bod asiantaethau'n parhau i gefnogi a hysbysu'r broses MAPPA. Mae NOMS yng Nghymru'n cydweithio ag asiantaethau partner er mwyn cyfnewid gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau o dan MAPPA, sy'n ein galluogi i adnabod, asesu a rheoli'r troseddwyr treisgar a'r troseddwyr rhywiol hynny sy'n cyflwyno'r perygl mwyaf i'n cymunedau lleol.

Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn goruchwylio gwaith y MAPPA o fewn Dyfed-Powys. Mae'r aelodau'n cynnwys uwch reolwyr pob asiantaeth sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd MAPPA fel mater o drefn. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddor y gall ein hasiantaethau ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol drwy weithio gyda'n gilydd.

Mae cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle i MAPPA fod yn atebol i'r gymuned leol, ac ar yr un pryd, darparu gwybodaeth ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn gwella effeithlonrwydd MAPPA. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n teimlo bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn addysgiadol ac yn eich helpu i ddeall sut mae asiantaethau ar draws Cymru'n cydweithio er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well.





Simon Boddis
Cyfarwyddwr NOMS Cymru

# Gair gan Gadeirydd ein Bwrdd Rheoli Strategol

Prif swyddogion yr Awdurdodau Cyfrifol sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r MAPPA ym mhob ardal o'r wald. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae ganddynt Fyrddau Rheoli Strategol MAPPA (BRhS).

Rydyn ni'n ymwybodol na fedrwn ddiogelu'r cyhoedd heb ymrwymiad a gwaith caled yr holl staff yn ein sefydliad ni a sefydliadau partner eraill. Mae'r bobl ymroddgar hyn yn cyfrannu at y gwaith, a hoffem gymryd y cyfle hwn i fynegi ein diolch yn gyhoeddus iddynt. Ond rhaid inni hefyd bwysleisio bod diogelu'r cyhoedd, ac yn arbennig diogelu'r bobl ifainc a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn gyfrifoldeb y mae pawb yn rhannu. Rydyn ni angen ac yn dibynnu ar gymorth a chydweithrediad y cyhoedd, yn ogystal â'u dealltwriaeth bod angen ymagwedd gytbwys a chymesur, ac uwchlaw pob dim, ymagwedd realistig a chlir.

Mae cyfarfodydd MAPPA yn Nyfed-Powys yn defnyddio Pedwar Piler rheoli risg, ac mae hyn yn caniatáu ar gyfer asesiad risg mwy holistig o achosion unigol sy'n cael eu trafod yn MAPPA. Mae'r fframwaith hon yn caniatáu i asiantaethau gyfrannu'n gyfartal at yr asesiad risg o wybodaeth maen nhw'n dal ar bob achos, ac yna ffurfio 'Cynllun Rheoli Risg' disgybledig ar y cyd i reoli'r risgiau a nodwyd. Mae hyn yn cyflwyno asesiadau mwy cywir o droseddwyr. Mae'r ymagwedd hon yn gwella diogelwch y gymuned, y cyhoedd a dioddefwyr, sef ein blaenoriaeth bennaf o hyd.



Christine Harley
Pennaeth Cyflenwi Lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol



Pam Kelly
Prif Gwnstabl Cynorthwyol

# Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys

Mae gwaith y MAPPA yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA; mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan Christine Harley sy'n Brif Weithredwr Cynorthwyol ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Aelodau eraill y Bwrdd yw;

- Pam Kelly – Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Dyfed-Powys
- Graham Barrett – Llywodraethwr, Carchar Abertawe
- Tim Burton – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Steve Cockwell – Ditectif Brif Arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys
- Des Grant –Cydlynydd MAPPA, Dyfed-Powys
- Paul Jagger – Llywodraethwr, Pennaeth Rheoli Troseddwyr, Carchar Abertawe
- Deanne Martin Prif Weithredwr Cynorthwyol – Cwmni Adsefydlu Cymunedol – Dyfed-Powys
- Ifan Charles – Ditectif Arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys.
- Nicola Rabjohns – Ymgynghorydd Lleyg MAPPA
- Sue Thomas – Pennaeth Tai Ceredigion (Mae Sue yn cynrychioli pob un o bedwar Awdurdod Tai Dyfed-Powys)
- Neil Edwards – Rheolwr Diogelu Oedolion a Gwelliannau
- Steve Davis – Uwch Reolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (Mae Steve yn cynrychioli pob un o bedair ardal Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Benfro)
- Libby Ryan-Davies – Dirprwy Gyfarwyddwr Cynorthwyol – Iechyd Meddwl ac AD – Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Sara Kenny – Canolfan Byd Gwaith, Pwynt Cyswllt Sengl MAPPA Canolfannau Gwaith De-orllewin Cymru
- Sara Evans – Gwasanaethau Monitro Electronig
- Janet Evans - Diogelu Plant Dynodedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Lynnette Evans – Pennaeth Gweithrediadau, CAFCASS Cymru
- Sue O'Grady – Cyngor Sir Powys, Rheolwr Sir
- Pauline Galluccio - Diogelu Plant Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Kathryn Treharne - Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol, Tîm Troseddau Ieuenctid Sir Benfro

Mae gan y Bwrdd Rheoli Strategol dri is-weithgor hefyd sy'n datblygu'r gwaith sy'n cael ei adnabod gan y Bwrdd Rheoli Strategol, sef;

**Is-grŵp Cyfathrebu MAPPA**
**Is-grŵp Perfformio a Monitro MAPPA**
**Is-grŵp Hyfforddi a Datblygu MAPPA**

# Tudalen leol

## Heddlu Dyfed-Powys

Mae Uned Amddiffyn Unigolion Agored i Niwed Heddlu Dyfed-Powys wedi profi cynnydd parhaus o ran galw ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a throseddau rhyw yn ystod y 12 mis diwethaf, yn unol â Heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

Cyflawnwyd adolygiad cynhwysfawr o alw amddiffynnol, rhagfynegol a mewnol ym mis Mai 2016, a chyflwynwyd hyn i Brif Swyddogion. Mae hyn wedi arwain at bennu adnoddau ychwanegol i'r Uned Amddiffyn Unigolion Agored i Niwed er mwyn cynnwys swyddogion penodol ar gyfer ymchwilio i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chynnydd mewn staff gweinyddol er mwyn rhyddhau amser ymchwilwyr.

Mae'r Heddlu hefyd wedi cyflawni adolygiad o Reoli Troseddwyr, a bydd canfyddiadau'n cael eu symud ymlaen dros y 12 mis nesaf. Cydnabyddir bod angen rheoli troseddwyr sydd mewn perygl o achosi niwed yn ogystal â throseddau niferus.

Mae'r strwythur uwch reolwyr wedi'i adolygu a phennwyd Ditectif Brif Arolygydd ar gyfer pob ardal diriogaethol plismona, gyda chyfrifoldeb gweithredol sy'n darparu gwell arolygiaeth a pherchnogaeth o faterion lleol.

Mae creu Bwrdd Bregusrwydd Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, ac sy'n cynnwys presenoldeb Cadeirydd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) yn sicrhau bod strwythurau llywodraethu cryf mewn grym ar gyfer cyflawni blaenoriaethau allweddol.

Mae gan y tri ar ddeg o feysydd busnes o fewn Amddiffyn Unigolion Agored i Niwed arweinwyr dynodedig ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yng nghyswllt codi ymwybyddiaeth ynglŷn â bregusrwydd, gan gynnwys hyfforddiant penodol ynghylch Bregusrwydd a fydd yn cael ei gyflwyno i'r holl staff rheng flaen yn ystod hydref 2016.

Mae swyddogion Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Throseddwyr Treisgar wedi cwblhau eu hyfforddiant ac wedi derbyn eu tystysgrifau, sy'n dangos tystiolaeth o'u hachrediad a gydnabyddir yn genedlaethol yn y maes gwaith hwn. Mae datblygiad proffesiynol y swyddogion hyn hefyd yn cael ei wella drwy gyfarfodydd chwarterol lle mae arfer gorau a meysydd ar gyfer eu datblygu'n cael eu trafod.

Mae'r Uned Gyfeirio Ganolog yn gweithredu fel canolfan ganolog ar gyfer rhannu gwybodaeth a chynnal trafodaethau ynghylch strategaeth gydag asiantaethau eraill. Cyflwynwyd cynllun adolygu a gwella gydag agweddau allweddol megis y Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth ar-lein yn symleiddio'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill mewn modd mwy amserol, ac yn lleihau dyblygu gwaith. Disgwylir gwerthusiad annibynnol o'r Alwad Gynadledda Cam-drin Domestig yn Sir Gaerfyrddin yn ystod hydref 2016.

Ystyrir creu Canolfan Diogelu'r Cyhoedd, gan weithio gydag asiantaethau eraill, yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda'r lleoliad ym Mhencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin, yn cael ei rannu.

Mae'r Heddlu wedi canolbwyntio ar ddatblygu proses ar gyfer adnabod, asesu, ac aflonyddu ar droseddwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, sydd nawr yn cael ei gyflawni'n ddyddiol. Mae proses debyg ar gyfer troseddwyr Cam-drin Domestig yn cael ei datblygu, gyda'r Ganolfan Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei hystyried yn rhan annatod o reoli troseddwyr.



Ditectif Uwch-arolygydd Steve Cockwell

# Tudalen leol

## Y Gwasanaeth Carchardai (Carchar Abertawe)

Ar ôl ymgymryd â'r swydd ym mis Mai 2016, rwyf wedi ymrwymo i barhau â'r ethos o waith partner a lleihau perygl a osodwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn cyflawni'n rhwymedigaethau i ddiogelu'r cyhoedd.

Y llynedd, cyflwynom y Cyfarfod Rheoli Risg Rhyngadrannol er mwyn sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n llawn â throseddwyr sy'n gysylltiedig â MAPPA ac asiantaethau allanol. Mae'r broses hon wedi esblygu drwy gydol y flwyddyn ac mae'n galonogol gweld y Sefydliad yn gwndid ar gyfer Dyfed-Powys i droseddwyr yn yr Ystâd Carchar Cenedlaethol.

Hefyd, rydyn ni wedi ehangu cylch gorchwyl y cyfarfod er mwyn cynnwys troseddwyr nad ydynt yn syrthio o dan MAPPA ond sy'n cyflwyno perygl i'r cyhoedd ar ôl eu rhyddhau, gan sicrhau bod asiantaethau partner yn ymwybodol o'r materion a'r pryderon.

Mae'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn sgrinio pob dyn newydd sy'n cael ei gymryd i'r ddalfa am unrhyw faterion cyfredol sy'n gysylltiedig â thrais domestig, neu faterion o'r gorffennol. Mae gennym berthynas weithio ardderchog gyda'r Unedau Trais Domestig yng Nghymru, ac rydyn ni'n cyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol iddynt er mwyn sicrhau y gellir rhoi cynlluniau rheoli risg ar waith. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cydweithio â'n Darparwr Adsefydlu a Thrwy'r Gât er mwyn cyflwyno arolwg gan y dynion rydyn ni'n eu cadw yn y ddalfa er mwyn gweld pa un ai a oes unrhyw gymorth neu ymyriadau pellach o fewn y llwybrau a fyddai'n cynorthwyo â'r cynnydd o ran troseddau sy'n gysylltiedig â thrais domestig, ac ar yr un pryd, sicrhau bod diogelwch y dioddefydd o'r pwys mwyaf.



Graham Barrett – Llywodraethwr - Carchar Abertawe

# Tudalen leol

## Gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd etholedig, fy mraint yw cynrychioli cymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys yn y rôl hon.

Er waethaf cynnydd bach yn nifer y troseddau a gofnodwyd, ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r lle mwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr o hyd, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, syrthiodd nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu'r pwyslais ar sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu cynnal a'u cefnogi, ac ar yr un pryd, sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer arferion gweithio effeithiol yn cael eu huchafu.

Mae diogelwch pawb yn Nyfed-Powys yn bwysig i mi. Rwyf eisiau adeiladu perthnasau cryf â phartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill i gadw cymunedau'n ddiogel rhag niwed. Mae MAPPA yn enghraifft arbennig o sut y gall asiantaethau gydweithio a bydd y trefniant amlasiantaeth hwn yn cynnal cyflenwi llawer o'm blaenoriaethau Heddlu a Throseddu.

Mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am faterion.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Mr Llywelyn a gwaith ei Swyddfa, galwch heibio i'r wefan - www.dyfedpowys-pcc.org.uk



Dafydd Llewelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru o dan berchnogaeth newydd yn dilyn rhaglen ddiwygio Trawsnewid Adsefydlu'r Llywodraeth a welodd cyfranddaliadau yn ei sefydliad yn trosglwyddo o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i Working Links, cwmni cyhoeddus, preifat a gwirfoddol unigryw, ar 1 Chwefror 2015.

Er bod Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru dal yn bennaf gyfrifol am reoli troseddwyr sydd mewn perygl o niwed isel neu ganolig, un o'n rolau craidd o hyd yw diogelu'r cyhoedd tra'n rheoli defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys nodi unrhyw newidiadau o ran risg a chyfeirio achosion risg uchel i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Yn ogystal, rydyn ni'n cyflwyno ymyriadau ledled y gwasanaethau Prawf. Er enghraifft, byddwn ni'n gyfrifol am gyflwyno rhai rhaglenni achrededig penodol i droseddwyr MAPPA. Rydyn ni hefyd am gyflwyno Ad-dalu Cymunedol yng Nghymru.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru'n asiantaeth sydd â dyletswydd i gydweithredu o fewn MAPPA, ac mae'n parhau i chwarae rôl allweddol o fewn bwrdd rheoli strategol MAPPA, yn ogystal â gweithio ar y cyd â MAPPA yn weithredol. O fewn Dyfed-Powys, mae'n dda iawn gennym fod gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru berthynas gref ac ystyrlon ag awdurdod cyfrifol MAPPA sy'n cynorthwyo o ran rheoli troseddwyr ar y cyd.

Ers 2015, mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru hefyd wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau adsefydlu i garcharorion Cymru sy'n treulio 12 mis neu lai yn y ddalfa. Rydyn ni'n gweithio'n agos â darparwyr eraill megis Ymddiriedolaeth St Giles a Cymru Ddiogelach (ystâd menywod) i gyflwyno cymorth sydd wir ei angen ar y garfan anodd hon er mwyn lleihau'r perygl o aildroseddu a gyflwynir gan unigolion. Gall y gwasanaethau hyn, o fewn cydlynu fframwaith MAPPA, helpu i wella'r cynlluniau a ddyfeisiwyd gan baneli MAPPA er mwyn lleihau perygl a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.



**Deanne Martin**
**Pennaeth Dyfed-Powys – Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru**

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (BAIP) ynghyd â chyrff eraill 'ddyletswydd i gydymffurfio' â'r Awdurdodau Cyfrifol (AC) o ran sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli troseddwyr o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (2003), ac mae Tîm Diogelu BAIP yn ymgysylltu'n weithredol â phob un o'r Awdurdodau Cyfrifol – yr Heddlu, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.

Mae'r Tîm Diogelu yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mhob cyfarfod lefel 2 a 3 MAPPA. Mae'r tîm yn trafod gyda'r holl weithwyr iechyd proffesiynol a allai fod â gwybodaeth i hysbysu asesiad risg a rheoli troseddwyr, er enghraifft, Meddygon Teulu, Ymgynghorwyr, a chydweithwyr Iechyd Meddwl o fewn Timau i Oedolion ac i Blant.

Maen nhw'n gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol i hysbysu'r cynllun rheoli risg a lleihau'r perygl o aildroseddu, a sicrhau y gweithredir datgeliadau i staff iechyd y cytunwyd arnynt, gyda diogelwch aelodau staff a chleientiaid o'r pwys mwyaf.

Mae'r Tîm Diogelu Plant yn 'bwynt cyswllt sengl' ar gyfer sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r uned MAPPA, yr Awdurdodau Cyfrifol a chydweithwyr iechyd.

Mae'r tîm Diogelu hwn yn parhau i weithio'n agos â meddygfeydd teulu ym Mhowys i sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth iechyd berthnasol ar bob enw MAPPA Lefel 2 a 3.

Mae iechyd yn agwedd bwysig iawn ar reoli risg ar droseddwyr ac mae'n bwysig bod unrhyw anghenion iechyd canfyddadwy yn cael eu diwallu fel blaenoriaeth. Ysgrifennir yn ffurfiol at bob meddygfa Meddyg Teulu i ofyn am y wybodaeth hon sy'n cael ei hanfon ymlaen at yr Uned MAPPA.

Mae'r Pennaeth Diogelu Plant yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar Fwrdd Uwch Reolwyr MAPPA ac mae hefyd yn aelod sefydlog ar yr is-grwpiau.

Cyfraniad Byrddau Iechyd Addysgu Powys mewn perthynas â:

- Monitro a gwerthuso'r canlyniadau wrth sicrhau diogelwch y cyhoedd bob amser.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso gweithrediad MAPPA o fewn ardal Dyfed-Powys
- Cymryd rhan wrth adolygu a chwestiynu ystadegau MAPPA lleol
- Cymryd rhan wrth adolygu'r Cynllun Busnes Bwrdd Rheoli Strategol a strategaeth cyfathrebu ehangach.
- Adnabod anghenion hyfforddi staff Iechyd a chyfrannu at yr hyfforddiant

Mae pob aelod o'r Tîm Diogelu wedi mynychu hyfforddiant Pedwar Piler MAPPA, ac mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at reoli risg troseddwyr a diogelwch y cyhoedd. Rydyn ni'n hynod falch o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf â'n hasiantaethau partner ac yn parhau'n aelodau ymroddedig o'r broses MAPPA.

**Pauline Galluccio**
**Pennaeth y Gwasanaeth Diogelu (Oedolion a Phlant)**
**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

# Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu

## Canolfan Byd Gwaith

Mae Canolfan Byd Gwaith yn asiantaeth weithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rôl Canolfan Byd Gwaith yw helpu i leoli troseddwr o fewn cyflogaeth neu hyfforddiant priodol, ar sail cyfyngiadau cyfredol a pherthnasol sydd wedi'u gosod ar y troseddwr hwnnw.

Mae gan Ganolfan Byd Gwaith ynghyd â chyrff eraill 'ddyletswydd i gydymffurfio' â'r Awdurdodau Cyfrifol (AC) o ran sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli troseddwyr o dan adran 325(3) o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (2003), ac mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymgysylltu'n weithredol â phob un o'r Awdurdodau Cyfrifol – yr Heddlu, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.

Mae gan yr Awdurdodau Cyfrifol 'ddyletswydd i gydymffurfio' gyda Chanolfan Byd Gwaith er mwyn atal troseddwyr MAPPA rhag ceisio neu sicrhau cyflogaeth neu hyfforddiant a allai gynyddu neu sbarduno'r risgiau y maen nhw'n eu cyflwyno. I'r perwyl hwn mae'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol yn hysbysu Canolfan Byd Gwaith o'r math o gyfyngiadau sy'n berthnasol i gyflogaeth neu hyfforddiant; yna rôl Canolfan Byd Gwaith yw lleoli troseddwr o fewn cyflogaeth neu hyfforddiant addas, gan ystyried yn unig unrhyw gyfyngiadau cyfredol a pherthnasol sydd wedi'u gosod ar y troseddwr hwnnw.

Ystyriaeth o bwys i ganolfannau byd gwaith yw pa un a yw lleoliad arfaethedig cyflogaeth neu hyfforddiant, neu natur y gyflogaeth neu'r hyfforddiant arfaethedig, wrth risg o dorri unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar y troseddwr hwnnw.

Mewn perthynas â rheoli troseddwyr MAPPA, mae dwy brif swyddogaeth gan yr asiantaeth hon:

1. Cynorthwyo troseddwyr i gyflogaeth, neu i gael mynediad at hyfforddiant addas, gan fod hyn yn gostwng eu risg o aildroseddu a chan hynny yn diogelu'r cyhoedd.

2. Ystyried unrhyw gyfyngiadau ar y mathau o gyflogaeth a hyfforddiant sy'n addas pan fydd hyn yn berthnasol i rai troseddwyr.

Bydd y swyddogaethau hyn:

- Yn rhoi help a chefnogaeth y mae gan droseddwyr o oed gweithio'r hawl iddynt i'w galluogi hwy i weithio.
- O fudd i droseddwyr, gan y gall cyflogaeth a hyfforddiant priodol ostwng y risg o aildroseddu. Mae cyflogaeth yn cynnig sefydlogrwydd  a diben i'r hyn sy'n aml yn fywydau anhrefnus.
- Rhoi cyfle i droseddwyr gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymuned leol ac at gymdeithas yn gyffredinol, ac i arwain bywydau sy'n ufudd i'r gyfraith.
- Atal troseddwyr rhag cael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant anaddas a allai osod y cyhoedd wrth risg o niwed difrifol.

Rôl Canolfan Byd Gwaith a Chyfarfodydd MAPPA

Mae gan Ganolfan Byd Gwaith gynrychiolaeth ar Fwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Mae presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn sicrhau cyswllt ar y lefel gywir a mynediad at wybodaeth mewn perthynas â materion strategol.

Yn ystod y flwyddyn, mae Canolfan Byd Gwaith wedi rhoi cyflwyniad i Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys, gan dynnu sylw at newidiadau'r Diwygiad Lles, ac yn arbennig, y newidiadau a ddaw yn sgil Credyd Cynhwysol. Mae awch cyffredinol wedi bod dros weithio mewn partneriaeth i gynyddu sgiliau staff er mwyn cynorthwyo'n cleientiaid cyffredin â'r newid proses.

Mae Canolfan Byd Gwaith hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant mewnol i'w staff yn Ardal Dde-orllewin Cymru o ran proses MAPPA a'r camau cywir i'w cymryd yng nghyswllt MAPPA. Mae hyn wedi sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion cadarn yn cael eu dilyn ym mhob lleoliad swyddfa leol i fodloni gofynion deddfwriaethol.

**Sara Kenny**
**Canolfannau Byd Gwaith De Orllewin Cymru**
**Pwynt Cyswllt Sengl MAPPA**

# Adroddiad yr Ymgynghorydd Lleyg

Mae fy ail flwyddyn fel Ymgynghorydd Lleyg i Fwrdd MAPPA Dyfed-Powys wedi bod yn flwyddyn ddiddorol a boddhaus.

Yn fy adroddiad MAPPA diwethaf, disgrifiais cyn lleied o wybodaeth sydd gan y cyhoedd cyffredinol am MAPPA, ond eto, mae'n rhan mor bwysig o ddiogelu'r cyhoedd.

Mae rôl MAPPA o ran cydbwyso diogelu ochr yn ochr ag atgyfaniad cadarnhaol i'r gymuned ar gyfer rhai o'n troseddwyr mwyaf difrifol a pheryglus yn hynod gymhleth.

Mae rhai troseddwyr MAPPA wedi bod yn y carchar am flynyddoedd lawer cyn eu bod nhw'n dychwelyd i'r gymuned, ac yn aml, nid oes modd iddynt ddychwelyd i'w hardaloedd cartref oherwydd natur a lleoliad eu troseddau. Mae hyn, ochr yn ochr â natur bennaf wledig Dyfed-Powys, yn cyflwyno heriau penodol ar gyfer yr heddlu, y gwasanaeth prawf, a'r asiantaethau partner sy'n gyfrifol am eu monitro a'u rheoli.

Mae effeithiolrwydd Bwrdd Strategol MAPPA Dyfed-Powys ond cystal â'r gwaith lleol gan asiantaethau cyfrifol a'u partneriaid ar lefel leol yn ardaloedd amrywiol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Fel Ymgynghorydd Lleyg i'r Bwrdd, fy rôl i yw darparu craffu a gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r bwrdd MAPPA. Fel rhan o hyn, rwy'n mynychu cymaint â phosibl o'r cyfarfodydd adolygu achosion lleol. Rwyf bob tro'n gadael cyfarfodydd adolygu achosion unigol â synnwyr cryf o'r heriau a wynebir gan swyddogion ac ymarferwyr unigol o ran rheoli'r troseddwyr hynny yn y gymuned, ac, yn bwysig iawn, eu hymrwymiad brwd tuag at sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Rwy'n gobeithio bod fy nghyfraniad i'r Bwrdd a'r adolygiadau achos unigol dros y flwyddyn ddiweddaf wedi cynnal gwaith ardderchog a heriol MAPPA yn Nyfed-Powys, a byddaf yn parhau i wneud hynny yn y flwyddyn i ddod.



**Nicola Rabjohns**
**Ymgynghorydd Lleyg**
**Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys**

# Swydd Wag Ymgynghorydd Lleyg

Mae swydd wag ar gael ar gyfer ail Ymgynghorydd Lleyg i ymuno â Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys, ac mae gennym ddiddordeb mewn penodi pobl sydd â phrofiad cyffredinol da o fywyd a'u cymuned leol.

Nid yw gwybodaeth o'r System Cyfiawnder Troseddol yn hanfodol, dim ond awydd i fod yn gysylltiedig â menter gwerth chweil sydd yn chwarae rôl arwyddocaol mewn diogelu'r cyhoedd.

Byddai Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA yn annog unrhyw aelod o'r Cyhoedd sy'n teimlo ei fod/bod yn medru cyfrannu at waith y MAPPA trwy gynrychioli buddiannau ei gymuned/chymuned mewn diogelu'r Cyhoedd i gysylltu â;

Des Grant  Cydlynydd MAPPA, Dyfed-Powys
Uned MAPPA
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn - 01267 226161
E-bost – desmond.grant.external@dyfed-powys.pnn.police.uk

## Yr hyn a ddisgwylir gan Ymgynghorwyr Lleyg

Dylai Ymgynghorwyr Lleyg:

- Fynychu pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli Strategol.
- Rhoi hyd at 8 awr y mis i'r Bwrdd Rheoli Strategol, ond ni ddisgwylir iddynt roi mwy nag 16 awr y mis.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso gweithredu MAPPA yn eu hardal.
- Mynychu cyfarfod chwarterol MAPP lefel 2 neu 3, i'w cynorthwyo i ddeall y broses a'u galluogi i gyflawni'r dasg o fonitro a gwerthuso MAPPA.
- Cadarnhau bod y Bwrdd Rheoli Strategol wedi creu cysylltiadau effeithiol â fforymau amlasiantaethol eraill, e.e. y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r Byrddau Diogelu Plant Lleol.
- Cynorthwyo â'r gwaith o baratoi adroddiad blynyddol MAPPA.
- Cymryd rhan ym mhrosiectau, gweithgorau neu is-grwpiau'r Bwrdd Rheoli Strategol.
- Cymryd rhan mewn adolygu'r Cynllun Busnes Bwrdd Rheoli Strategol a'r strategaeth gyfathrebu ehangach.
- Cymryd rhan mewn adolygu a chwestiynu ystadegau MAPPA lleol.

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA yng Nghymru a Lloegr ar-lein ar:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**